YR YMOFYNYDD.

Misolyn y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1901. [RHIF 2.

EIN DIWEDDAR FRENHINES.

YN marwolaeth y Frenhines Victoria daeth i derfyn deyrnasiad a ellir ystyried yn un o'r cyfnodau mwyaf hynod yn hanes Prydain Fawr. Esgynodd i'r orsedd yn 1837; hunodd ei hûn olaf yn nechreu'r ugeinfed ganrif. Bu felly yn teyrnasu am y cyfnod hirfaith o dros 63 o flynyddau,—y teyrnasiad hiraf er yr unwyd yr oll o Loegr dan yr un teyrn yn 827 hyd yn awr, yn ogystal a'r teyrnasiad mwyaf llwyddianus a gogoneddus.

Mae'r cyfnod uchod yn cyfateb bron yn hollol i gyfnod y cynydd rhyfeddol sydd yn nodweddu rhan o'r bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg. Gellir ystyried 1832—pum mlynedd cyn esgyniad y Frenhines i'r orsedd—fel dechreuad y cyfnod hwn, pan y pasiwyd y Mesur Diwygiad cyntaf. O'r flwyddyn hono hyd ddiwedd y ganrif, gwnawd ymgais ar ol ymgais i symud ymaith achosion anghydraddoldeb, ac i estyn cyfleusderau gwell i'r bobl, megis Diddymiad Treth yr Yd, Mesur Diwygiad 1867, estyniad cyfleusderau addysg i'r dospeirth tlawd o'r boblogaeth, dan nawdd a chynorthwy y Llywodraeth, yr hwn gynorthwy a ddechreuwyd ei roddi yn 1833; Deddf Addysg 1870, pryd yr ymgymerodd y Llywodraeth a'r cyfrifoldeb o ddarparu moddion addysg i bob plentyn trwy'r deyrnas; Mesur y Tugel, Mesurau Diwygiad 1884 ac 1885; Mesur Llywodraeth Leol 1888; ac Addysg Rad yn 1891. Nid yw'r uchod oll ychydig o'r ymgeisiadau lluosog a wnawd yn ystod teyrnasiad ein diweddar Frenhines yn yr un cyfeiriad, effaith yr oll o'r rhai oedd ysgafnhau beichiau y dospeirth tlotaf o'r boblogaeth, a'u gwneud yn ddinasyddion boddlongar a dedwydd. Ni ddywedwn fod yr oll wedi ei wneud ag a ellid ei wneud. Cydnabyddwn fod llawer o ddiwygiadau a gwelliantau i'w henill eto. Ond ni ddylai hyn ein gwneud yn ddall i'r hyn a enillwyd eisoes—yn benaf, yn ystod teyrnasiad ein Brenhines.

Mae gallu'r frenhiniaeth wedi ei leihau yn fawr o'r hyn a fu unwaith. Ond er hyny, gallai person diffygiol mewn doethineb digonol i'w alluogi i adnabod ei safle, beri llawer o ofid a chreu llawer o gyffro. Er anrhydedd iddi y gellir dyweyd fod ein diweddar Frenhines yn meddu'r elfen uchod anhebgorol i un yn llanw y safle a lenwid ganddi hi, ac iddi wneud defnydd da o honi. Er pan yr esgynodd i'r orsedd hyd ddiwedd ei theyrnasiad, dangosodd ddoethineb mawr yn nghyflawniad ei dyledswyddau pwysig; ac ni phetruswn ddyweyd fod gan hyn lawer i wneud a'r llwyddiant ac a'r cynydd digyffelyb sydd wedi dilyn yr Ymherodraeth yn ystod ei theyrnasiad.

Ond er yr edmygwn hi am hyn yn fawr, nodwedd arall o'i bywyd sydd yn apelio atom gryfaf, ac yn creu'r parch dyfnaf yn ein mynwes tuag ati ac edmygedd o honi, sef, y bywyd ardderchog a arweiniodd yn ystod ei gyrfa. Lleinw teyrn pob gwlad safle i'r hon y perthyn cyfrifoldeb digyffelyb, a chyrhaedda dylanwad y bywyd a arweinir ganddynt yn mhell,—trwy'r oll o'u tiriogaethau, ac yn fynych yn mhellach. Ar ddechreu ei theyrnasiad gosododd ein diweddar deyrn nôd uchel o ymddygiad o'i blaen, a chadwodd ei golwg arno yn ffyddlon hyd y diwedd, gyda'r canlyniad fod ei bywyd trwyddo yn gyfryw ag y gall pob un o'i deiliaid edrych yn ol arno heb gywilyddio. Yn hyn o beth saif wrthi ei hun yn mhlith ein brenhinoedd a'n brenhinesau, o'r dechreu hyd yn awr; a hyn sydd yn benaf yn cyfrif am y parch dwfn (hyd yn nod y serch) a fodola yn mynwes ei deiliaid tuag ati; a hyn hefyd a wna'r goffadwriaeth am dani yn beraroglus.

Gall amrywiol syniadau fodoli yn ein plith gyda golwg ar y ffurf oreu o lywodraeth. Rhydd i bob meddwl ei farn yn hyn fel yn mhob peth. Pleidiwn ni dros y ffurf o lywodraeth, gan nad beth fydd ei nhatur, a estyna y breintiau goreu, y cyfleusderau mwyaf, a'r rhyddid helaethaf i'w deiliaid. Ond, yn unrhyw achos, rhoddwn bwys ar fod penaeth pob llywodraeth yn sylweddoli y cyfrifoldeb a berthyn iddynt i osod esiampl uchel o flaen eu deiliaid, ac i ofalu fod eu dylanwad o'r iawn ryw; a chyhyd ag y pery brenhinoedd (ac hefyd frenhinesau) Prydain Fawr i ddilyn llwybr ein diweddar Frenhines, bydd eu safle yn sicr. Ac ar hyn hefyd y bydd diogelwch eu gorsedd yn ymddibynu.

AGOS I DDEUGAIN MLYNEDD YN Y WEINIDOGAETH.

Gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca.

FEL pob gweinidog Undodaidd yn y dyddiau hyny cefais fy addysg barotoawl yn Ngholeg Caerfyrddin. Aethum yno yn Hydref 1860, a threuliais dair blynedd yn ddedwydd iawn. Daeth

y bedwaredd gyda'i chyfrifoldeb neillduol. Yn agos i ddiwedd y drydedd bu farw y Prifathraw, y Parchedig Ddr. Lloyd, o barchus goffadwriaeth; ac yr oedd hyny yn ychwanegu gwaith y myfyriwr Undodaidd henaf yn yr Athrofa, am y disgwylid arno gyflawni y gwasanaeth Cymraeg yn y capel, lle yr anfonai y Dr. bregethwyr rheolaidd, tra y parhaodd ei nerth. Gwnes fy ngoreu yn y gwaith hwn heb un geiniog o gydnabyddiaeth. Yn ychwanegol at hyn bu y Parch. Titus Evans farw yn gynar yn fy mlwyddyn ddiweddaf. Yr oedd hyny drachefn yn golygu i mi bregethu yn Rhydyparc ac Onenfawr bob yn ail Sul, a dychwelyd, pan y gallwn, i gynal y gwasanaeth am chwech yn Nghaerfyrddin. Disgwylid i mi hefyd ofalu am waith y dosparth, fel pe na bai genyf ddim arall i'w wneud. Gall y darllenydd gasglu wrth hyn fod genyf ddigon o waith mewn llaw, heb feddwl dim am y dyfodol.

Ond fel yr oedd y dyddiau yn hedeg, a'r terfyn yn yr Athrofa o hyd yn dyfod yn nes, yr oedd y pryder am y dyfodol yn barhaus yn dyfod fwy-fwy. Nid oeddwn erbyn hyn yn ofni bod heb un lle, oblegid awgrymid i mi, mewn mwy nag un man, y byddai fy ngwasanaeth yn dderbyniol. Y pwnc mawr i'w benderfynu oedd, ar gyfer pwy faes, yn debygol, yr oeddwn fwyaf cymwys. Arosais hyd y terfyn heb benderfynu dim. Pan ddychwelais adref yn haf 1864, er fy mawr syndod, daeth cenhadon ataf o eglwys Alltyplaca, yn gofyn genyf gymeryd eu gofal bugeiliol hwy. Wedi ymgynghori a'm cyfeillion mwyaf mynwesol, yn nghyd a'r cyn-weinidog parchus, daethum i'r penderfyniad i gydsynio a'u cais. Derbyniais alwad tua diwedd Gorphenaf (1864), wedi ei llawnodi gan aelodau o'r eglwys, ag yr oedd genyf yr ymddiriedaeth lwyraf ynddynt, ac atebais hi yn gadarnhaol. Ni fu dim rhyngom yn nghylch cyflog o gwbl. Dim ond derbyn yr hyn a allent hwy yn rhwydd ei wneud. Ychydig o son am gyflogau oedd gan weinidogion yr amser hwnw,—yr hen oruchwyliaeth ydoedd.

Gan y gwyddwn nad oedd gobaith am lawer o gyflog, yr oedd yn rhaid edrych allan am foddion cynhaliaeth. Yr unig ddrws agored i mi, fel y meddyliwn, oedd cadw ysgol. Yn ffodus i mi, yr oedd eisieu ysgolfeistr ar y pryd yn y Cwrtnewydd, rhyw haner milldir o fy nghartref. Yr oedd ysgoldy i'w gael yn rhydd i mi ond ei fod yn adfeiliedig: tô gwellt, llawr pridd, a hwnw yn byllog, a'r gwlaw yn curo i mewn o dan y drws, nes y byddai weithiau lynwen ag a fyddai'n beryglus i blant, os nad i foddi, o leiaf i wlychu eu traed. Beth oedd i'w wneud? Nid oedd genyf fi arian i'w adgyweirio. Wedi galw'r cymydogion yn nghyd, penderfynwyd ar fod i dri o honom fyned ar hyd y gymydogaeth i ofyn ewyllys da pawb tuag at adgyweirio yr unig ysgoldy cyfleus iddynt. Llwyddwyd yn rhyfedd yn yr anturiaeth. Casglwyd deg-punt-ar-hugain, y swm angenrheidiol i osod y tŷ mewn trefn. Daeth y gwaith i ben yn ddiweddar yn yr Hydref, a dechreuwyd ar y gwaith o egwyddori plant ar y 7fed dydd o Dachwedd.

Yn y cyfamser yr oedd Onenfawr heb un gweinidog, ac apelient yn

daer arnaf i'w gwasanaethu unwaith yn y mis, yr hyn addewais ei wneud. Yr oedd y pellder, o leiaf, yn dair-milldir-ar-hugain, ac felly yn ormod i'w theithio ar draed. Benthycais arian i brynu *pony*, a chedwais y weinidogaeth hon yn y blaen am tua blwyddyn, pan y cymerodd y Parch. Proff. Evans yn garedig fy lle. Y mae un peth yn nglŷn a'r weinidogaeth hon nad allaf lai na'i grybwyll, *h.y.*, buais yn pregethu ddwy waith yn nghapel y Trefnyddion Calfinaidd yn Rhydcymere, ar gais y blaenoriaid, yr hyn a ystyriwn yn anrhydedd.

Yn gynar yn yr ail flwyddyn o'm gweinidogaeth, digwyddodd dau amgylchiad pwysig i mi yn fy hanes. Yn un peth, bu farw yr enwog Owen Evans, Cefncoedycymer, ac mewn canlyniad gwnaeth yr eglwys yno gais ataf i fyned i'w gwasanaethu, gan gynyg i mi driugain punt y flwyddyn o gyflog, tra nad oeddwn yn cael ar y pryd ond wyth punt. Gwrthodais, "gan ddewis yn hytrach," &c.; y peth arall oedd marwolaeth fawr yn y gymydogaeth, yr hyn a wnai fy ngwaith yn galed i mi, gyda'm profiad cyfyngedig. Gan nad oedd gweinidog gyda'r Bedyddwyr, byddai galw mynych arnaf i weinyddu yn eu hangladdau hwy, yn gystal ag angladdau fy mhobl fy hun.

Erbyn hyn yr oedd tô'r tŷ cwrdd yn dyferu, a'r gynulleidfa yn wan i gyfarfod a'r draul o'i ail doi. Beth oedd i'w wneud? Cynlluniwyd i gael darlith, a cheisio gan y gweinidog i werthu tocynau yn mysg ei adnabyddiaeth. Sicrhawyd gwasanaeth y Parch. Wm. Thomas, M.A., fel darlithydd, ac er fod y noson yn wlyb iawn, daeth tyrfa luosog yn nghyd, fel rhwng cynyrch y noson a'r hyn oedd wedi ei wneyd yn barod, galluogwyd y gynulleidfa i dalu pob gofynion. Yn nechreu y flwyddyn 1867, daeth un o henaduriaid Cwrtnewydd ataf i ofyn i mi a fyddwn yn foddlon dyfod yn weinidog i Gapel y Bryn (yr ysgoldy yr oeddwn yn cadw ysgol ynddo), os gellid llwyddo i ffurfio eglwys reolaidd o'r achos oedd wedi bod yn hir yn cael ei nodweddu gan ansicrwydd mawr. I'r hyn yr atebais y byddwn, os gallai efe a'r rhai a gydweithredent ag ef, gael allan fod y bobl a arferent gyrchu i'r gwasanaeth a gynhelid yno y pryd hwnw gan y Parchn. T. Thomas a W. Thomas yn barod i gymeryd y fath gam. Wedi amser digonol i ymgynghori a'r holl rai a deimlent ddyddordeb yn yr achos, y mae yr hen wr yn dyfod yn ei ol ataf, ac yn dweyd fod y bobl yn unfryd yn llawenhau yn y mudiad. Yn ganlynol y mae'r parotoadau angenrheidiol yn cael eu gwneud, ac y mae y cymundeb cyntaf yn cael ei weinyddu, yn mis Mai, gan y Proff. Evans, Caerfyrddin, yn cael ei gynorthwyo gan y gweinidog, pryd yr ymunodd rhyw 34 yn gangen o eglwys Crist yn Nghapel y Bryn. Y mae yr achos wedi llwyddo, fel mae'r eglwys erbyn hyn yn rhifo 120.

Yn y flwyddyn 1870, y mae capel Cwmmwrdu yn cael ei ail agor, ac wrth edrych yn ol yr wyf yn argyhoeddedig i mi wneyd fy rhan dros yr achos hwnw, er yn aflwyddianus, oblegid y mae wedi ei gau eto.

Yn 1871, cyfarfyddais a John Lewis, Ysw., Tyddyndu, yn Llanbedr; a gofynodd i mi a allaswn ddim dyfod i bregethu'n achlysurol i ysgoldy oedd ganddo ef ar ei dir, a elwid Pontfanog, i'r hyn yr

atebais yn gadarnhaol. Dechreuwyd heb fod yn faith ar y genhadaeth hon, a chadwyd yr achos yn mlaen yn llewyrchus trwy gynorthwy gweinidogion y cylch a myfyrwyr, hyd farwolaeth Mr. Lewis. yr hyn a gymerodd le yn ngwanwyn 1876. Gan nad oedd yno neb yn teimlo fel efe tros yr achos, gorfu arno wywo.

Yn 1875, derbyniais alwad oddiwrth y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor i fyned yn Genhadwr drosti, i rai o drefi mawrion Deheudir Cymru, am chwe' mis. Mwynheais y gwaith yn rhagorol yn mhob man ond yn Llanelli, lle y bum mewn enbydrwydd am fy mywyd. Tua'r adeg yma ffurfiwyd Bwrdd Ysgol yn mhlwyf Llanwenog. a gosodwyd fi yn îs-gadeirydd o honi yn fy absenoldeb. Gwasanaethais ar y Bwrdd o'r dechreu i'r diwedd am naw mlynedd.

Fel y gwyr darllenwyr Yr Ymofynydd darfu i Ddeddf Addysg 1870 ymyryd yn fawr a bara a chaws gweinidogion Undodaidd, oherwydd eu bod yn ymddibynu cymaint ar eu hysgolion. Trwy'r cyfan nid ydwyf fi wedi gweled eisieu dim. Gwellhaodd yr amser, lluosogodd yr eglwysi, a daeth y *Sustentation Fund* i'r adwy,—fel y mae fy niwedd, mewn ystyr arianol, yn well na'm dechreuad. Yn y flwyddyn 1881, cefais sylweddoli fy ngobaith hir-ddisgwyliedig, sef, cael tŷ cwrdd newydd yn Nghapel y Bryn. Yr oeddwn lawer gwaith wedi cymhell y pwnc ar yr aelodau, ond nid oedd ganddynt ffydd y gallesid byth gael digon o arian i dalu am dano. Ond daeth yr adeg o'r diwedd. Sicrhawyd erw o dir claddu ; adeiladwyd capel hardd, a thŷ anedd arno, ac yr oedd yn rhydd o ddyled ddydd yr agoriad.

Yn 1891, ymgymerwyd a'r gorchwyl o ail-adeiladu Alltyplaca, a llwyddwyd yma eto i gael yr hyn oll oedd yn angenrheidiol, fel y mae yma hefyd gapel gwych, heb ddim dyled. Rhaid i mi bellach dynu tua'r terfyn. Y cwbl garwn i ddweyd yn awr yw, pe bai y fath beth yn ddichonadwy i mi ag ail ddechreu fy ngyrfa, ni charwn yr un alwedigaeth fel y weinidogaeth. Y mae ei gwerth mwyaf yn gynwysedig yn y cyfeillion mynwesol y mae hi yn roddi i ddyn, a'i threialon caletaf yn symudiad y rhai hyny i'r byd mawr tuhwnt i'r llen.

" Yn Nuw, pa faint, ac ym mha wedd
Cawn ddeall hyn tu draw i'r bedd."

GAIR ER COF.

TAFLWYD cymydogaeth y Cribyn, yn nghyd a chylch helaeth o gyfeillion a chydnabyddiaeth, i alar dwys gan y newydd am farwolaeth ein hanwyl gyfaill Daniel Jones. Er ei fod wedi ymadael

a'r lle bellach er's amryw flynyddau, eto ei bleser penaf oedd dychwelyd i dreulio ei wyliau yn ei hen gartref, ac yr oedd ei natur ddiniwed ac addfwyn, yn nghyd a'i sirioldeb, wedi enill iddo le cynes yn mynwes pob un a'i hadwaenai. Yr oedd efe yn un o'r ychydig ddynion ieuainc yn Llundain (dynion ieuainc o Eglwysi Ceredigion gan mwyaf) fuont yn foddion i sefydlu'r achos Undodaidd Cymreig yn y Brif-ddinas, oddeutu chwe' blynedd yn ol. Mae'r mudiad bychan hwn, yn ddiamheuol, yn un o'r digwyddiadau mwyaf calonogol yn hanes Undodiaid Cymreig; oherwydd ynddo gwelwn frwdfrydedd dros y ffurf o grefydd a broffesir genym, o'r hwn yr ydym fel enwad yn ddiffygiol iawn; a gwelwn nifer o ddynion ieuainc, ar ol gadael eu cartrefi tawel yn y wlad, ac ymsefydlu mewn dinas sydd mor llawn o attyniadau o bob math, da a drwg, o dan ddylanwad eu serch at y ffurf o grefydd y dygwyd hwy i fyny ynddi, yn nghyd a'u serch at yr hen iaith, yn meddu digon o wroldeb i fyned at eu gilydd i addoli Duw yn y ffordd oedd fwyaf cydfynedol a'u meddyliau a'u teimladau goreu. Ac er y cychwyniad cyntaf glynasant yn ffyddlon wrth yr achos bychan, a chynhaliasant y gwasanaeth yn wythnosol trwy'r blynyddau, heb ond ychydig iawn o gynorthwy allanol; a sicr wyf fod rhan fawr iawn o'r clod am y llwyddiant sydd wedi coroni eu hymdrechion yn ddyledus i'n cyfaill ymadawedig. Gwyr ysgrifenydd y llinellau hyn yn dda (fel y gwyr llawer eraill) pa mor anwyl iddo oedd yr achos bychan, pa aberthau a wnaeth drosto, a chyda pa frwdfrydedd yr arferai siarad am dano. Gobeithio y gwna esiampl ein cyfaill ysprydoli y rhai sydd ar ol i gario'r gwaith yn y blaen gyda mwy o frwdfrydedd ac ymroddiad nag erioed; oherwydd sicr ydwyf na ddaw iddynt ond daioni oddiwrtho.

Yr oeddwn yn ei adnabod yn dda er's blynyddau; yr oeddwn yn hoffi ei gwmni, ac yr oedd ei gwmni yn felusach pa oreu yr adwaenwn ef; a da oedd genyf yn wastad weled adeg ei ymweliad a ni yn dod oddiamgylch; ac oddiar yr adnabyddiaeth hir ac agos hwn o hono, gallaf dystiolaethu nad wyf ond anaml wedi cwrdd a dyn ieuanc wedi ei feddianu mor llwyr gan y fath deimlad byw o'i ddyledswydd fel Cristion ag efe. Nid oedd ond 31 oed,—bron ar ddechreu yr hyn a ystyrir yn gyffredin y tymor goreu o fywyd; ac yn sicr, yn ei achos ef, ar ddechreu gyrfa a allai fod yn un ddefnyddiol iawn. Ond daeth cwmwl du dros ei fywyd, ac ymadawodd; ac y mae pob gobaith, mor bell ag y mae a fyno ag ef, wedi diffodd. Trist yw'r galon ar ei ol. Yn ngwyneb y dirgelwch a amgylcha derfyn ei fywyd, nis gallwn wneyd dim yn well nag aros yn fud. Er hyny, hyfryd ydyw i'w berthynasau a'i gyfeillion i feddwl eu bod, wrth drysori'r cof am dano, yn trysori'r cof am un fu'n ffyddlawn i'w egwyddorion, yn ymdrechgar iawn drostynt, ac yn ofalus i'w harddangos yn ei fywyd. Fel y canlyn y rhoddodd ei hen gyfaill mynwesol, Dewi Hefin, ddatganiad i'r teimladau a achoswyd yn ei fynwes gan yr amgylchiad galarus—

Am Dan mae llu'n cwynfanu;—enhuddwyd
Un haeddai ei garu;
O *West Ham* mynodd lamu
Yn sydyn i'r dyffryn du.

Mae chwithdod hynod heno—am wr oedd
Mor weddaidd ac effro;
Athraw llawn o ddawn oedd o;
Ni roddid anair iddo.

Yn *Essex Hall* ymwrolodd;—a'i gred
Yn gryf a ddiffynodd;
I r blaid wan ei ran a rodd,
Ar ei sel llawer sylwodd.

Er ei nawdd i rinweddau,—er ei ddawn,
Er ei ddenol eiriau,
'E wnaeth ei fron yn nyth frau
I feddalion feddyliau.

Colli mab a chydnabod—llon ei wedd,
Llawn o wir deilyngdod,
Bylai'n gobaith; blin gwybod
Mai yn y *bedd* mae e'n bod.

O'i le uchel ei lwchyn—anfonwyd
I fynwent y Cribyn;
Er gwychder, hoewder hydyn,
Ac enw da, gwan yw dyn.

YR HEN A'R NEWYDD.

Gan y Parch. J. M. Lloyd Thomas, Nottingham.

Hebreaid xii: 1—2.

I ysgrifenydd yr Epistol hwn yr oedd traddodiadau Iuddewaeth yn parhau i fod yn bethau i ymffrostio ynddynt. Gallasai gyffwrdd a chalonau ei gydwladwyr, a deffroi eu brwdfrydedd trwy gyfeirio at gymeriadau mawrion hanes eu ffydd fel cenedl. Gwyddai werth traddodiadau; gwyddai nid yn unig fod gan y presenol a'r dyfodol, ond gan y gorphenol hefyd, ei ysprydoliaeth yn gystal a'i hawl ar warogaeth dynion; ac mae'n

dda i ni gofio hyn, oblegid yn fynych dywedir gormod am ddylanwadau ceidwadol a chaethiwus y gorphenol. Siaradwn am law farw y rhai a aethant o'n blaen, baich a gormes hen arferion, ac yn fynych collwn ein hamynedd pan y sonir am draddodiadau y tadau, a'r hyn a wnaethant hwy yn eu dydd. Ond mae traddodiadau da yn gystal a rhai drwg, y rhai ydynt yn cadw yn fyw yn gystal ag yn lladd, yn dyrchafu ac nid yn bwrw i lawr, yn cynwys ynddynt eu hunain ddoethineb, profiad, a gogoniant cenedlaethau y gorphenol; ac yn ein hadgofio am weithredoedd mawrion wedi eu gwneud, meddyliau goruchel wedi eu meddwl, a bywydau gwrol wedi eu byw er gwasanaeth i Dduw ac i ddyn.

Y cyfryw oedd traddodiadau Iuddewaeth ag y sonia yr ysgrifenydd am danynt yn y benod o'r blaen. Ar ol siarad am y rhai, trwy ffydd, a oresgynasant deyrnasoedd, a wnaethant gyfiawnder, a gawsant addewidion, &c., mae yn dyfod at y casgliad a'r apel derfynol a mawreddog, "oblegid hyny, ninau hefyd, gan fod cymaint cwmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch, gan roi heibio bob pwys, a'r pechod sydd barod i'n hamgylchu, trwy amynedd rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni," &c. Nid oedd bywydau o'r fath yna wedi eu byw yn ofer; nid oeddent wedi ymgynal o dan y fath ddioddefiadau heb un amcan. Cludai y fath draddodiadau goruchel drosodd o'r gorphenol i'r presenol, o'r meirw i'r byw, lamp oleu y ffydd a'r gwirionedd. Gosododd y dynion hyn eu bywydau i lawr, ond nid cyn i'w beichiau gael eu trosglwyddo i'w holynwyr, a rhwymedigaeth ddifrifol gael ei gosod arnynt. Yn y modd hyn deuwn i deimlo nad yw hanes ddim yn gofnod sych o ffeithiau difywyd, ond yn *ddrama* fyw, symudol, yn cael ei chyfeirio gan amcan a'i gwefreiddio gan deimlad.

Yn ngoleuni hanes yn unig y gallwn ni sylweddoli yn gyflawn werth, yn gystal a swyn y dyledswyddau a'r amcanion goruchel sydd yn hawlio ein sylw. Dyma'r rheswm paham nas gall meddwl addfed fyw yn y presenol heb gynhaliaeth y gorphenol. Nis gall darllen arwyddion yr amserau, na dehongli y dyfodol, ond trwy gymhorth y doethineb addfed sydd wedi ei gasglu o brofiad yr oesau a fu. Dyma paham y clywn ni o hyd am ddynion yn crio allan yn nghanol dyryswch cymdeithas ddiweddar, "Yn ol at Bright" mewn Gwleidyddiaeth; "yn ol at Kant" mewn Athroniaeth; "yn ol at Iesu" mewn Crefydd. Ni fyddai symudiad o'r fath o angenrheidrwydd yn symudiad tuag yn ol; dichon fod dynion wedi cael allan eu bod wedi colli golwg ar ryw drysor cuddiedig yn y gorphenol, ac yn myned yn ol i godi i fyny ryw rwymedigaeth sydd wedi ei hesgeuluso, ac i gymeryd gafael ar ryw ysprydoliaeth anghofiedig a fydd o wasanaeth gwerthfawr i'r presenol.

Mae'n bosibl fod cyfundrefnau duwinyddol ein tadau allan o fri erbyn hyn, ond mae eu duwioldeb, eu serch dwfn at wirionedd ac at ryddid, eu ffyddlondeb i argyhoeddiad, yn wyneb yr erledigaethau mwyaf creulawn, eu hymgysegriad anhunanol i wneuthur daioni, mewn gair, mae *ysprydeu bywyd* yn etifeddiaeth i ni heddyw, etifeddiaeth y dylem ni ymdrechu i'w chwrteithio a'i chyfoethogi, fel y gallwn ni roddi cyfrif da am danom ein hunain i'n plant, ac i blant ein plant. Ond mae yn ngallu etifedd i dynu wrth wraidd ei etifeddiaeth a'i dinystrio; ac mae'n bosibl i eglwys hefyd i fyned yn ddifater o'i thraddodiadau goreu, ac i laesu yn ei hymdrechion, hyd yn nod pan yn ymffrostio yn ei saint sydd wedi meirw. Mae yr eglwys sydd yn gorphwys ar fawredd ei thraddodiadau wedi ei thynghedu i ddinystr; dylai yn hytrach eu derbyn fel rhagorfraint, cyflawni yn ddidwyll y dyledswyddau sydd yn dyfod gyda hwynt, a'u trosglwyddo i lawr i'r hiliogaeth wedi eu bywhau, eu dyrchafu, a'u gogoneddu.

Os bu angen gwroniaid moesol ac ysprydol ar y byd erioed, mae eu hangen heddyw. Yn anaml mae

rhyw ddifaterwch dirmygus at bob peth sydd yn wir, yn sanctaidd, ac yn brydferth, wedi bod mor amlwg ag ydyw heddyw. Ymddengys rhyw barlys moesol a chrefyddol fel yn ymledu dros ein bywyd anghyoedd, cymdeithasol, a gwleidyddol. Mae yn amser, pan y mae dynion, yn ngeiriau Sephanaiah, yn dweyd yn eu calon, "Ni wna yr Arglwydd dda, ac ni wna ddrwg."

Mae yn oes a nodweddir gan y trachwant deublyg i wneyd arian, ac i geisio am bleserau; ac er mwyn iechyd ein henaid mae eisiau Puritaniaeth newydd arnom, eisiau dychwelyd at yr hen ddifrifoldeb, yr hen uniondeb bywyd oedd yn nodweddu ein tadau ysprydol. Ac ni ddaw hyny ond trwy ymddiried dyfnach yn Nuw fel llywodraethwr moesol y bydysawd, ac fel barnwr dynion —Barnwr a Brenhin, yn gystal a Thad—yr hwn a dâl i bob dyn yn ol ei weithredoedd.

I bob ymddangosiad hefyd mae'n oes o anallu duwinyddol, pan mae dynion yn rhuthro yn ol i freichiau awdurdod eglwysig er mwyn cael tawelwch a thangnefedd i'w heneidiau. Mae llawer hefyd nad ydynt yn proffesu nac yn galw eu hunain yn Gristionogion, a'r rhai nad ydynt yn dal perthynas ag unrhyw eglwys, yn cysegru eu bywyd er hyny i ymdrech foesol yn achos teyrnas cyfiawnder a daioni ar y ddaear. Mae cenadwri eglwys fel hon at yr holl ddosparthiadau hyn, a pha faint mwy parod a brwdfrydig y dylem ni sydd yn proffesu credu yn Nuw, ac yn Iesu Grist ymdrechu i wasgar yspryd gras a gwirionedd yn nghalonau dynion. Mae Matthew Arnold wedi desgrifio yr eglwys fel cymdeithas i ledaenu daioni; ac mae Sir John Seeley yn dweyd "fod pob eglwys ar y ddaear, ac yn sicr yr Eglwys Gristionogol, yn gymdeithas foesol (*ethical*) —cymdeithas foesol fawr y byd." Hyd yn nod gyda'r syniad gostyngedig hwn am Eglwys, mae genym ni ein gwaith i'w wneud. Ond mae yr Eglwys yn fwy ac yn uwch o lawer na hyn. Y ni, sydd genym ffydd ac ymddiried, nid yn unig mewn cyfiawnder ond mewn Duw cyfiawn, nid yn unig mewn cariad, ond mewn Tad cariadlawn, nid yn unig mewn hunan-aberth, ond mewn Crist croeshoeliedig,—oni ddylem ni ddangos ein ffydd a'n hymddiried gyda mwy o sêl, o wroldeb, ac o ddiysgogrwydd, na'r rhai sydd yn sugno eu hysprydoliaeth yn unig oddiwrth deimlad caled o ddyledswydd. Mae eisiau y gwaith allwn ni wneyd fel eglwys yn y ddinas fawr yma, fel yn mhob man arall. Mae gan yr eglwys hon ei sefydliadau daionus sydd yn gofyn eich help a'ch cydweithrediad. Gadewch i ni yn awr, ynte, ar ddechreu gweinidogaeth newydd, adnewyddu ein ieuenctid, adfywhau ein bywyd cynulleidfaol, a chysegru ein hunain o'r newydd i Dduw a phob daioni.

FRANCIS,—Y SANT O ASSISI.

Gan E. Gwilym Evans, B.A., Rhydychen.

Mae'n anhawdd gofyn i Gymro i droi ei olygon yn ol i'r drydedd-ganrif-ar-ddeg—oes gwaradwydd a gorchfygiad ei wlad. Nid i fryniau Buallt, lle cwympodd ein Llyw olaf, ond i fynyddoedd canolbarth yr Eidal, i Assisi, lle genedigol Sant y ganrif uchod, y'ch gwahoddir genyf

yn awr. Os gwir ydyw yr ymgnawdola Duw mewn modd arbenig yn mherson un, o leiaf, o'i blant o fewn cylch pob canrif—diau mai yn Sant Francis y gwnaethpwyd y Gair yn gnawd yn nghyflawnder amser y drydedd-ganrif-ar-ddeg. Terfysglyd iawn oedd cyflwr yr Eidal pan anwyd Francis—cyflwr o ryfel cartrefol parhaus. 'Roedd byw yn y wlad, oddigerth dan gysgod castell cryf, yn anmhosibl ; gorweddai y caeau cnydfawr heb eu haredig ; newyn, pla, a chreulonderau a lanwent y wlad. Tu allan i fynachdy ni thrigai heddwch. Ymdyrai Cristionogion i'r mynachdai, gan adael y byd i'r diafol a'i weision. Yn erbyn offeiriaid yr oes hono, fel corff, nis gellir dwyn y cyhuddiad o foesoldeb, gonestrwydd a phurdeb. 'Roeddent yn ddieuog o'r cyfryw wendidau !

Oni bai eu bod yn derbyn cyflogau offeiriaid ni fuasai neb yn gwybod mai gweision proffesedig yr Arglwydd Iesu oeddent. Godineb, lladrad, llofruddiaeth, cyssegr-fasnach,—ni chysylltir y pechodau hyn, fel rheol, ag offeiriadaeth Eglwys Crist. Felly yr oedd yr adeg hono ond nid yn hollol felly chwaith. Dibynai gobaith Sodom gynt am ymwared ar bresenoldeb pum' dyn cyfiawn ynddi. Methwyd cael gafael ynddynt ; er hyny, pe bai yr Hollalluog Dduw ei hun wedi chwilio am danynt, yn lle ymddiried y gwaith i Lot, credaf y celai afael ynddynt. Fe'u cafwyd yn yr eglwys Gristionogol yn y drydedd-ganrif-ar-ddeg, ac achubwyd yr arch o ddwylaw'r Philistiaid trwyddynt. Yn mhlith y cyfryw y penaf oedd Sant Francis.

Trigai rhieni Francis yn Assisi—tref fechan oddeutu can' milldir o Rufain—tref wedi ei hadeiladu ar lechweddau bryniog dan gysgod y Penwynion—asgwrn cefn mynyddig yr Eidal. Rhwng Assisi a'r môr ymestyna gwastadedd eang, ar ba un y safai castelli a phentrefydd, yn cysgu dan awyr lasa'r byd. Dywed rhyw fardd Seisnig mai dim ond dwy iaith sydd i ysprydoliaeth—un o'r môr a'r llall o'r mynydd. Un o feibion y mynydd oedd Iesu Grist, a phlentyn y mynydd ydoedd ei ddisgybl, Francis, hefyd, fel y gwelwn cyn bo hir. Ond wrth basio, dyddorol fyddai gofyn a fagwyd bardd, cerddor, arlunydd neu arweinydd crefyddol enwog erioed oddigerth dan ddylanwad môr neu fynydd ? Beth feddyliwch ? Diau magwyd llawer masnachwr llwyddianus heb gymorth môr na mynydd, ac yn eu plith tad Francis. Masnachwr brethynau cyfoethog oedd Pedr, tad Francis, ac wrth ddilyn ei alwedigaeth ymdeithiodd lawer tro mor bell a Ffrainc. Yn wir, yn Ffrainc yr ydoedd pan y ganwyd iddo ei fab, a dyna'r rheswm yr enwyd y baban yn Francis. Hoff bleser Francis pan yn hogyn,—cofiwch mai oes heb lyfrau rhad a newyddiaduron ydoedd, —fyddai eistedd wrth draed ei dad i glywed hanes dynion dieithr a gwleddydd pell, hanes esgobion llygredig, offeiriaid trachwantus, a brenhinoedd gwaedlyd ; hanes tlodion yn cael eu gorthrymu, a chrefydd yn cael ei sathru. Disgynodd stori druenus ei dad i galon dyner Francis, yn mhen amser i ddwyn ffrwyth ar ei chanfed. Yn mhen amser, ond nid ar unwaith. Yn y cyfamser, mwynhaodd Francis ei hun ar olud ei dad. Sicrhaodd ei haelioni fynediad rhwydd i gylch boneddigion yr ardal, ac hynododd ei hun am wastraff, anghymedroldeb ac afradlonedd. Mewn gwisgoedd gwych cerddai o amgylch y dref ddydd a nôs gan ganu a gwaeddi. Dygai y fath ymarweddiad i'w dad balch foddlonrwydd, ond i'w fam fwynaidd, boen a galar. Ond daeth cyfnewidiad cyn bo hir yn hanes Francis. Ymwelodd Duw ag ef drwy afiechyd peryglus ; dihunodd ei gydwybod o gysgadrwydd pechod, a gwelodd Francis fywyd newydd o'i flaen. Cyfarfyddodd a Jehovah yn Bethel unig, dywyll, a dirgelaidd. Yno ymwrolodd a Duw yn y nôs mewn ymdrech ddwys, a Duw a'i bendithiodd ef. Ymneillduodd o'r dref i unigrwydd y coed a'r caeau i ymgynghori a Duw ynghylch ei

waith yn y dyfodol ; canolbwyntiodd ei holl feddyliau ar fywyd y saer tlawd o Nazareth, a phenderfynodd, fel ei feistr, i arwain bellach fywyd o hunan-aberth a thlodi, nid drwy ymneillduo o'r byd i fynachdai fel seintiau eraill, ond drwy fyw yn y byd er mwyn y byd. Wele'r boneddwr ieuanc ynte, wedi dyfod yn gardotyn ! Beth oedd barn y gwerthwr brethyn hunangarol am y fath gyfnewidiad yn ei fab ? Gwyddom am y tragwyddol bwys a osodir gan ei epil hyd heddyw ar lwyddiant materol ymddangosiadol. Addolant o flaen pob dim y ddelw *respectability*, canys mawr ydyw Diana yr Ephesiaid. Digiodd ei dad wrth Francis ; teimlai'n ddiddadl fod arddeliad diragrith ei fab o grefydd yr Iesu yn sarhad ar ei sefyllfa fel masnachwr parchus ac adnabyddus. Nid tad Francis ydyw'r diweddaf ag sydd wedi gwerthu egwyddorion Iesu Grist dros gounter ei siop. Ond yn ngwyneb pob rhwystr aeth Francis yn ei flaen, er heb le bellach i roddi ei ben i lawr. Rhyw ddiwrnod crwydrodd i'w eglwys hoffusaf, St. Damian, gerllaw ei gartref. Er yn sefyll ar fryn prydferth, ymysg olewydd pruddaidd, ac yn arogl pêr rosynau Mair a Choed lavender,—eglwys adfeiliedig ydoedd. Ar ei muriau moel nid oedd ond un addurn, sef llun Crist yn hongian ar y groes. Syrthiodd Francis ar ei liniau o'i flaen, a syllodd ar wyneb tawel a thyner yr Iesu, a thybiodd glywed y geiriau, " Deuwch ataf fi, bawb ar y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythaf arnoch."

Fel St. Paul gynt dan wres gorlethol haul canol-dydd cyffiniau Damascus, gwelodd Francis, yn Eglwys St. Damian, Iesu Grist wyneb yn wyneb, pa un ai yn y corph neu yn yr ysbryd, nis gwyddom, ond efe a'i gwelodd. Datguddiwyd Iesu Grist ynddo ac iddo, a daeth y weledigaeth o Iachawdwr y byd i Francis, fel ag i Paul, yn ganolbwynt ei fywyd crefyddol. Croeshoeliwyd ef gyda Christ i adgyfodi ac i fyw gyda Christ.

Wedi trosglwyddo ei holl arian i offeiriad yr eglwys er cynal llusern ar gŷn yn wastadol wrth yr allor, rheddodd Francis yn ol i Assisi, casglodd yn nghyd ei holl eiddo, yn eu plith, ei geffyl, ac a'u gwerthodd ar ben ffair. Dychwelodd i'r eglwys, ond nid i fwynhau fawr heddwch. Penderfynodd yn mhen ychydig o ddyddiau i dalu ymweliad a'i dad. Pan, yn welw ei rudd a'i ddillad yn garpiau, yr ymddangosodd ar y stryd, casglodd cannoedd o blant o'i amgylch, gan feddwl mai dyn gwallgofus ydoedd. Cymaint oedd y swn a'r terfysg fel ag i dynu sylw tad Francis. Yn ei ffyrnigrwydd, ymaflodd yn ngwddf ei fab fel pe am ei dagu ; llusgodd ef i'w dy, a thaflodd ef, yn haner marw, i ystafell dywell. Ychydig o ddyddiau ar ol hyn, yn absenoldeb y tad creulawn, gollyngwyd Francis yn rhydd gan ei fam, yr hon a darawyd gan ei gwr am ei thynerwch tuag at ei mab. Aeth *respectability* y bydol-ddyn un cam yn mhellach : dietifeddodd ei fab yn gyhoeddus o flaen yr Esgob a thrigolion y dref. Taflodd Francis ymaith bob dilledyn oddiar ei gorph ; safodd o flaen y dorf yn noeth, a dygodd ei dad dideimlad y dillad i ffwrdd, gan droi ei gefn ar ei fab am byth. O'r fath dad ! o'r fath fab ! Yn crynu dan oerwynt llym mis Mawrth, heb dad, heb gartref, heb fwyd, heb ddillad, ie, heb gydymdeimlad un dyn,—a phwy all fyw heb gydymdeimlad ? Yr oedd Francis eto yn berffaith gysurus am y gwyddai ei fod yn cyd-ddioddef a'r Iesu. Wedi derbyn mantell oddiwrth yr Esgob i guddio ei noethni cyfeiriodd ei gamrau tuag at y mynydd, a'i galon yn llawn gorfoledd a pheroriaeth. Cyn cyrhaedd y mynydd, angenrhaid oedd i Francis i fyned drwy goedwig dywell. Aeth iddi dan ganu Salmau o fawl i Dduw. Ond yn fuan dyna ladron yn neidio allan o'u lloches, gan ofyn i Francis, " Pwy ydwyt " ? " Gwas y goruchaf Dduw," meddai'r sant. Wedi dwyn oddiarno ei unig ddilledyn, taflasant ef i ffos yn llawn eira, gan ddywedyd, ' Dyna dy le priodol—gwas Duw.'

Cododd Francis o'r ffos wedi i'r lladron ymadael, ac er gwaethaf yr oerfel a'r noethni ail-ymaflodd yn y gân o ddiolchgarwch i Dduw am ei ddaioni ai drugaredd. Pa un ai yn fyd ydoedd ai prophwyd dwyfol?

(*Pw barhau.*)

NYTH Y FRAN.

Ar ol cynhadledd feddygol a gynhaliwyd yn Llundain rai blynyddoedd yn ol, gofynwyd i feddyg enwog, beth feddyliai ef fyddai effaith y ddamcaniaeth newydd gyda golwg ar ddechreuad clefydau—y *germ theory*. Yr ateb oedd, "Rhaid ail-ysgrifenu pob llyfr ar feddyginiaeth oddiar y safbwynt yna." Mae yn yr ateb hwn awgrym o natur llawer o'r gwrthwynebiad a deimlir yn erbyn adolygu hen gredoau a derbyn syniadau newyddion. Buasai rhaid i lawer athraw duwinyddol yn y Colegau chwynu allan ei hen lyfrgell, prynu set o lyfrau newydd, newid ei *dext-books*, ac ail-ysgrifenu *notes* ei wersi a'i ddarlithiau. Beth wnelai'r gweinidog o'i hen stoc bregethau? Byddai yn brofedigaeth enbyd i daflu hen gyfeillion y blynyddau i'r wadd ac i'r ystlumod, ac ail-eistedd i lawr a dechreu myfyrio ac ysgrifenu oddiar y safbwynt newydd—safbwynt anghyfarwydd hefyd. Gwaith anhawdd fuasai cymhwyso ei hun i amgylchoedd mor wahanol. Yr oedd yn ddigon hawdd i redeg yn yr hen *grooves*, marchogaeth yr hen ddrych-feddyliau cynefin, a defnyddio yr hen ymadroddion o wythnos i wythnos. Wnaiff yr hen *stock-phrases* ddim ffitio i mewn i drefn newydd pethau, ac fel mater o ffaith, mae'n ormod o dreth i dreio eu gwneud. Gwell ydyw'r hen, ac nid "*Forward*" ydyw arwyddair y dosparth hwn. Mae'n ryfedd fod unrhyw gynydd yn cael ei wneyd o gwbl gyda'r holl *dead-set* yna yn ei erbyn—yr yspryd ceidwadol sydd mor naturiol i ddyn, a hwnw yn cael ei ategu ar bob cam gan gymaint o ragfarn, o ddifaterwch ac o ddiogi.

Mae y ddwy stori ganlynol yn engreifftiau o'r ffordd mae'r Beibl yn cael ei gamddefnyddio ar adegau mwy cysegredig na siarad cyffredin rhwng gwr a'i wraig, neu mam a'i phlentyn:

Yr oedd gwr, nid pell o Sydney, ychydig amser yn ol yn gwrthod gwneud rhyw orchwyl neillduol yn y tŷ, a dyfynai adnodau o'r Ysgrythyr i brofi i'w wraig mai y fenyw oedd i gyflawni dyledswyddau y gegin a'r parlwr, &c. "Edrychwch am yr adnod hono," atebai hithau, "yn 2 Brenhinoedd xxi. 13." Mae yntau yn darllen—"Golchaf hefyd Jerusalem fel y gylch *dyn* gwppan, yr hwn pan olcho, efe a'i try ar ei wyneb." "Beth ddwedwch chwi yn awr," meddai hi yn mhellach, gyda llais taran. Mae y gwr hwnw byth oddiar hyny yn golchi'r cwppanau ac yn sychu'r plâts heb ddweyd gair yn groes.

"Mam," meddai plentyn myfyrgar yn Boston, U.D.A., unwaith. "Beth yw'r mater, Waldo?" "A ydyw Philadelphia yn henach na Boston, mam?" "Nag yw, wrth gwrs, fy mab. Cymerodd y sefydliad cyntaf le yn Boston yn 1630. Ni ddaeth

William Penn i Philadelphia am haner can mlynedd ar ol hyny." "Fel hyny o'wn inau yn meddwl hefyd, mam; ond sut mae'n digwydd fod Philadelphia yn cael ei grybwyll yn y Beibl, tra nad oes yr un sôn yno am Boston?"

Be' gebyst sy ar y bobol, dywedwch? Rhai blynyddoedd yn ol, bu Samuel Morley, y gwr cyfoethog ac haelionus hwnw, tad yr Aelod Seneddol dros Sir Frycheiniog, a pherchenog y *Contemporary Review* ar y pryd, bron methu cael golygydd cymhwys i'r cylchgrawn hwnw. Yr oedd yn rhaid cael llenor o dalent a dylanwad, ac, yn ol Morley, yr oedd yn rhaid iddo gredu yn yr Iawn; ac mae llenorion Saesneg o'r dosparth blaenaf yn credu yn yr Iawn, yn o brin. Dyma i chwi restr o gyfeillion y diweddar Broffesswr Max Müller yn Lloegr ac America: Kingsley, Clough, Matthew Arnold, Tennyson, Browning, Froude, Ruskin, Carlyle, Emerson, Lowell, Wendell Holmes, Huxley, Tyndall, Faraday, Lyell, Sedgwick, Darwin, Grote, Whewell, R. Owen, Thirlwall, Macaulay, Helps, Dean Stanley, F. D. Maurice, a James Martineau. Mae y rhai hyn yn ddiamheu yn brif lenorion ac enwogion y ganrif. Ond mae y mwyafrif mawr o honynt yn nghyd a Max Müller ei hun, fel mae'n eithaf gwybyddus, yn hereticiaid, yn anghredinwyr, fel y dywed Dr. Cynddylan Jones, ac, mewn canlyniad, a'u gwyneb tua'r trueni, ac wedi cyrhaedd yno erbyn hyn. Dywed Huxley mewn llythyr at Charles Kingsley fod yr holl ddynion ieuainc ag yr oedd ef yn gynefin â hwy yn credu yn hanfodol fel yr oedd ef yn credu. "Nid wyf yn gwybod," meddai, "am un gwatwarwr nac un dyn anghrefyddol neu anfoesol yn eu plith, ond maent i gyd yn edrych ar iawn-ffyddiaeth fel yr ydych chwi yn edrych ar grefydd y Brahminiaid yn India."

Mae llyfr bychan galluog y Proffesswr Witton Davies, o Goleg y Bedyddwyr Bangor, ar "Ysgrythyrau yr Hen Destament" yn cael ei drin yn arw gan Olygydd *Y Drysorfa*, Cylchgrawn Misol y Methodistiaid Calfinaidd. Dywed fod yn ddrwg ganddo fod llyfryn o'r fath wedi ymddangos yn Nghyfres yr Ugeinfed Ganrif. Mae yn ddigon i ddistrywio gwerth y gyfres oll. "Ac," meddai'r Golygydd, "nis gallwn lai na gresynu fod gwr sydd yn meddu syniadau mor llac yn athraw mewn coleg yn mha un yr addysgir pregethwyr." Yn awr mae'n digwydd fod y gwr hwn wedi gwneyd astudiaeth drwyadl o'r pwnc, wedi bod yn eistedd wrth draed yr athrawon goreu yn y wlad hon a'r Cyfandir, ac wedi cysegru ei hun trwy ei oes i gyrhaedd y cymhwysderau gofynol yn y ganghen hon o wybodaeth. Heblaw hyn, mae'n ysgrifenu oddiar safle o gyfrifoldeb fel gweinidog gyda'r Bedyddwyr ac athraw yn eu Coleg yn gystal ag yn Ngholeg y Brifysgol yn Bangor. Ac hefyd mae y casgliadau y daw ef iddynt yn cael eu cadarnhau gan yr awdurdodau uwchaf yn y ganghen hon o bob enwad yn Ewrop ac yn America. Pwy sydd debycaf o fod yn iawn—dynion profedig gyda phob cymhwysder i ffurfio barn neu rywun fel Golygydd *Y Drysorfa* nad yw yn gwybod dim yn neillduol am y pwnc, ond yn ddiamheu yn credu ei bod yn rhinwedd i lynu trwy'r tew a'r teneu wrth hen syniadau traddodiadol?

Peth arall sydd yn ymddangos yn *odd* yn y mater, ac nis gallaf ei esponio, yw hwn: Ar yr un tudalen, mae sylw yn cael ei wneud o Eiriadur Beiblaidd Dr. Hastings—y dryddedd gyfrol. Dywedir fod ei awyrgylch *bob amser yn iach*, ac mae y llyfr yn cael ei argymhell yn y modd mwyaf calonog ar bawb sydd yn hoff o lenyddiaeth Feiblaidd, ac ni ddylai un gweinidog efengyl fod hebddo. Yn awr mae safle Dr. Davies yn ei

lyfryn yn gymhwys yr un a'r hon sydd wedi cael ei mabwysiadu yn y Geiriadur, a chredaf y gellir cael cadarnhad o bob gosodiad o eiddo'r Doctor yn ysgrifau y Geiriadur ar yr Hen Destament. Mae'r anghysondeb hwn tuhwnt i mi. A ydyw yn tarddu o'r dymuniad i gau allan, os yn bosibl o'r Gymraeg, bob peth sydd yn arogli o'r wybodaeth newydd, a chadw Cymru, beth bynag, yn gysegredig i'r hen draddodiadau?

Ond wedi'r cwbl, os ydyw iawnffyddiaeth i gael ei chadw i fyny, mae Golygydd *Y Drysorfa* yn iawn. Mae y feirniadaeth ddiweddar, sydd yn oruchaf braidd yn mhob man erbyn hyn, yn myned wrth wraidd anffaeledigrwydd y Beibl, ie, ac wrth wraidd anffaeledigrwydd ac hollwybodaeth Iesu Grist. Credai Iesu Grist mai Moses oedd awdwr y Pum Llyfr, ac appeliai ato fel yn llefaru am dano ef. Nid oes dim mor sicr yn awr nad ysgrifenodd Moses erioed o'r Pum Llyfr. Mae Iesu yn siarad am Jonas wedi bod dridiau a thair nos yn mol y morfil; ond nid oes neb erbyn hyn, ag mae ei farn yn werth rhywbeth, yn credu fod Llyfr Jonah yn ddim angen na dameg, ac nid oes sail o wirionedd i stori y pysgodyn. Mae hyd yn nod Dr. Cynddylan Jones yn teimlo'r wasgfa yn y fan yma. Wrth arholi pregethwyr ieuainc y Methodistiaid yn ddiweddar mae'n eu harwain at athrawiaeth y *Kenosis*, neu yr *Ymwaghâd*, ac yn gofyn iddynt wneyd yr hyn fuasai yn ryfyg o'r mwyaf iddo feddwl y gallasai wneyd ei hun byth, sef egluro y gwaghâd (*a*) yn nacaol, hyny yw, dangos yr hyn nas amddifadodd ei hun o hono; (*b*) yn gadarnhaol, h.y., yr hyn y darfu iddo waghau ei hun o hono. Mae y pedwerydd gofyniad yn mhapyr Dr. Jones, sydd yn rhedeg i ugain o linellau yn *Y Goleuad*, yn esiampl o'r cynefindra dibarch hwnw â dirgelion hanfod a bwriadau y Duwdod, sydd yn ymddangos bob amser i mi yn un o'r pethau mwyaf gwrthun mewn Iawnffyddiaeth. Mewn gwirionedd, nid yw athrawiaeth y *Kenosis* yn ddim ond *shift* fel y dywed y Proffeswr Paine yn ei *History of the Evolution of Trinitarianism*, tud. 281, i guddio y gwrthddywediad sylweddol sydd yn bodoli rhwng y syniad o Dduwdod a'r syniad o ddyndod Crist—rhyw gongl lle mae pobl yn cael eu gyru am ddiogelwch pan mae'r adeilad yn ymollwng i gyd oddiamgylch iddynt.

Ac ymollwng mae e', dyweded doctoriaid duwinyddiaeth beth a fynont. Yr oedd Dr. Henry Jones, Proffeswr Athroniaeth Foesol yn Mhrif Athrofa Glasgow, ac olynydd yr enwog Edward Caird—y Cymro uwchaf ei safle fel athraw yn ddiamheu yn yr oes hon—yn traddodi darlith pwy ddydd yn Nghaernarfon. Cafodd y Proffeswr Jones ei ddwyn i fyny gyda'r Methodistiaid; bu yn bregethwr gyda hwynt; ond mae wedi dryllio'r cadwynau ac yn siarad heddyw yn rhydd oddiwrth lyffetheiriau Cyffes Ffydd a chyfamod eglwysig, heb ofn cerydd Cwrdd Misol na Chymdeithasfa. A dyma ei dystiolaeth yn ei ddarlith ar "Ragolygon Crefydd yn yr Ugeinfed Ganrif": "Nid oedd y Beibl wedi ei fwriadu yn safon unrhyw beth. Nid yn y gorphenol yr oedd safon y gwirionedd, ond yn natur dyn. Nid oedd yn y Beibl ddim un briodoledd ond rhai dynol. Edrycher ar hanes dyn, ac fe welid ei fod, bob rhan a migwrn o hono, yn ddatguddiad. Edrycher am y gwir yn hanes dyn. Yr oedd y gwirionedd hwn cyn hyned a Phlato, a chyn hyned a Christionogaeth, canys hanfod Cristionogaeth ydoedd mai dynoliaeth berffaith ydoedd y datguddiad uwchaf o Dduw. Beth oedd meddwl y dynion a ddywedent na ddylai dyn arfer ei reswm yn y pethau hyn? Pe mai rhywbeth a wnaethai dyn ei hunan fuasai ei reswm, buasai rhyw reswm yn eu gwrthwynebiad; ond pelydryn o'r haul ei hun oedd y rheswm, a chred-

ai ef yn gadarn, os ymofynid am y gwir, yn unplyg ac yn eofn, y ceid hyd iddo fwy-fwy." Dyma yspryd YR YMOFYNYDD i'r tipyn, ac mae'r Frân yn crawcian ei diolchgarwch, goreu y gallo hi, am eiriau mor galonogol oddiwrth feddyliwr mor fawr ac mor wrol.—Y FRAN.

GOHEBIAETHAU.

PREGETHWYR LLEYG.

Mri. Golygwyr,

Os yn dderbyniol carwn wneud defnydd o'ch tudalenau i wyntyllu y cwestiwn hwn. Dyma, yn fy marn i, un o brif angenion ein henwad yn Nghymru. Tra y mae gan yr oll o'r enwadau eraill eu pregethwyr lleol wrth yr ugeiniau, nid oes genym ni ond ychydig iawn yn wir ; ac nid yw yn beth heb yn wybod am dano yn ein plith i weled cynulleidfa yn gorfod cyfeirio eu camrau tuag adref am nad oes yno neb i gymeryd y gwasanaeth pan y dygwydd y gweinidog fod yn absenol. Mae hyn yn gywilydd i ni fel enwad, a dylem wneyd rhywbeth ar unwaith i'w symud ymaith. Dyma waith y dylai ein bechgyn a'n merched ieuainc gymeryd pleser a dyddordeb ynddo, a chydag ychydig gyfarwyddyd ar ran y gweinidog ac eraill nid wyf yn meddwl llai na wnaent. Mae ein brodyr yn Lloegr wedi ffurfio undebau o'r gweithwyr braidd anhebgorol hyn, a byddai yn dda i ninau ddilyn eu hôl —dylasai yna fod, a dweyd y lleiaf, un undeb yn Morganwg, ac un arall yn Ngheredigion. Dylasai fod yna un, beth bynag, yn mhob capel, a allai gymeryd lle y gweinidog pan fo yn cael ei luddias gan afiechyd, neu unrhyw achos arall. Buasai corph o bregethwyr lleyg, galluog, yn gaffaeliad ac yn nerth i'r achos da. Buan y gwawried y dydd, ynte, pan fo ein henwad yn berchen ar y fath fyddin o weithwyr arwrol.

SEIEN SIE TAUSEND.

—

HOLLWYBODOLRWYDD DUW.

Mri. Golygwyr,

Gyda'ch cenad, carwn ddweyd gair. Yr wyf yn credu mai un modd tuag at wneud YR YMOFYNYDD yn ddyddorol, a hyrwyddo ei gylch-rediad yw trwy wneud defnydd da o golofn y Gohebwyr. Mae trin a thrafod materion pwysig mewn yspryd awyddus am y gwirionedd yn sicr o'n dwyn yn nes at y gwirionedd, am fod gan bob un o honom rywbeth i'w ddysgu y naill oddiwrth y llall. I gael dechreuad, ynte, cynygiaf i'ch sylw, ag eiddo eich darllenwyr, y pwnc o Hollwybodolrwydd Duw. Fel y mae y rhan fwyaf o honom yn gwybod mae Dr. Martineau yn ei *Study of Religion* yn maentumio nad yw Duw yn Hollwybodol—nad yw Efe yn gwybod yn mlaenllaw sut y bydd i ni weithredu mewn unrhyw amgylchiad lle yr ydym yn defnyddio ein rhydd-ewyllys, er ei fod yn gweled y diwedd o'r dechreu, ac er cynt yr hyn ni wnaed eto. Mae yn cymeryd y safle hon am ei fod yn credu nad yw rhydd-ewyllys ynom ni yn gydweddol a Hollwybodolrwydd ar

ran Duw. Pe bai Duw yn gwybod yn mhob amgylchiad beth wnaem, ni fyddai genym rydd-ewyllys. Er mor ddeniadol a dyddorol yw y ddamcaniaeth hon, nid wyf yn gallu ei dilyn yn hawdd, am fy mod yn methu gweled sut y gall y ffaith fod Duw yn gwybod yn mlaenllaw beth a wnawn mewn unrhyw amgylchiad, newid ein gweithredoedd a'n rhwystro i wneuthur fel y dymunem. Mae hwn yn bwnc dyrys, a charwn gael barn eich darllenwyr arno. Dymunwn hefyd, cyn terfynu, awgrymu, ai nid da fyddai cael triniaeth lwyr a manwl ar dudalenau YR YMOFYNYDD ar y cwestiwn o gael ffurf-wasanaeth i'n capelau sydd wedi bod o flaen ein cynulleidfaoedd mor ddiweddar. Fod rhywfaint, pa mor ychydig bynag, o ddaioni i ddeilliaw oddiwrth yr ychydig sylwadau hyn yw dymuniad goreu

QUAESITOR VERITATIS.

CONGL YR AWEN.

"Diwedd y flwyddyn 1900," &c. Drwg genym, Hefin, nad oes sedd i neb yn y Gongl, oni fedr Ramadeg yn well na chwi. Yr ydych wedi bod yn myfyrio yn mysg y beddau, fel llawer un o'ch blaen, ond nid yw cyfeillion y Gongl yma yn ystyried fod eich myfyrdodau o un dyrchafiad neilldnol i'r neb a'u darlleno. Yr ydym yn eich dwys gynghori i astudio eich Llyfr Emynau, eich Beibl, a'ch Gramadeg Cymraeg, cyn anturio i'n plith eto. Ac os mynwch droi yn myd y meirw, dysgwch ar eich cof gyfieithad yr hen Ddafis Castell-Hywel—"Myfyrdod ar einioes ac angau." Gwedi hyny, bydd yn dda genym gael tusw o flodau wedi eu casglu genych, hyd yn nod o lanerch drist y fynwent.

"Heddwch." Testyn tra amserol, os nad mor wreiddiol ag y dymunem iddo fod. Yr ydym yn meddwl mai Macaulay sydd yn dweyd: "It is pretty generally agreed that the shorter a prize-poem is, the better"; beth bynag, os bydd gofod, yn caniatau, caiff eich 5 penill 8 llinell ymddangos yn eu tro. Anystwyth yw y ddwy linell hon—

"Mor swynol ydyw'r bwthyn fedd
'*R anrhydedd* o'th letya."

Dylasech, ar bob cyfrif, osgoi sillgoll ar ddechreu llinell, os bydd y llinell yn diweddu mewn cydsain. Mae bai cyffelyb yn y llinell:

"'Mrysonau ffol i'r anedd dlos."

Yr ydym hefyd wedi tynu'r ysgrifell drwy'r *h* yn y frawddeg—

"Ei mheib a gwympant yn y gad."

Vulgarism yr ystyrir y treigliad hwn o'r llythyren *m* gan yr ysgrifenwyr Cymraeg goreu; er y dywedwn ei *mh*am, eu *mh*am yn fynych wrth siarad yn Ngheredigion, a dichon fod yr arferiad hon yn eich cyfiawnhau i raddau. Nid yw yn Ramadegol dweyd: *Ymwel yn glau dueddau gwaedlyd daear.* Nis gellir defnyddio y berfau hyny a ddechreuant gydag *ym* fel berf trosiadol. Y mae berf fel *ymolchi* yn cynwys y gwrthrych ynddi ei hun: h.y., *ymolchi golchi hunan. Ymweled a rhywun* neu *rywbeth* y byddis: *gweled* yw'r ferf drosiadol. Yn hyn o beth y mae ein hiaith yn debyg i'r Ffrancaeg, er engraifft, *laver=golchi (rhywun neu rhywbeth)*: *se laver=ymolchi.* Y mis diweddaf awgrymasom i chwi'r priodoldeb o adael allan eiriau o ystyr amhenodol, fel *gwiw*, *mwyn*, *glwys*; ond nid ydych wedi ymryddhau oddiwrthynt eto: nid oes un

gair llanw yn y farddoniaeth oreu. Er hyn i gyd, y mae llawer o synwyr, a chryfder, ac hyd yn nod awen, yn eich penillion, ac nid ydym yn synu iddynt gipio gwobr.

DALIER SYLW.—Y mae bechgyn y Gongl yn cynyg copi o "*Oriau'r Hwyr*," *Ceiriog*, am y ddau benill wyth llinell goreu, ar y testyn "Gwaith." Yr oll o'r cyfansoddiadau i fod i law ar neu cyn Mawrth 1af, 1901. Cyhoeddir enw'r bardd buddugol yn rhifyn Ebrill.

Y WIWER.

(*Buddugol yn Eisteddfod y Graig, Llandyssul, Calan 1901.*)

Un fechan, ddel, mewn hug felen—
ydyw'r
Hydiog wiwer fronwen ;
Un hoew, ffals, gron ei phen ;
Difyr cwyd i frig coeden.

Coedfab.
(Tom Thomas, Fronwen, Llandyssul).

COLOFN Y PLANT.

ARWYDDAIR.—"*Beth bynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna a'th holl egni.*"

HANESYN AM WILLIAM CAREY.

A oes rhai o honoch wedi clywed am William Carey, un o Genhadon mwyaf enwog y ganrif ddiweddaf? Ni rof ei hanes i chwi y tro hwn (ef-allai y gwnaf hyny ryw dro er hyny), ond rhoddaf yr hanesyn a ganlyn am dano. Pan yn blentyn ieuanc, aeth yn nghyd a dringo coeden uchel gerllaw ei gartref, ond pan oedd oddeutu haner y ffordd i'r lan efe a gwympodd, a thorodd ei glun. Mewn canlyniad, bu am wythnosau yn methu myned allan o'r tŷ. Ond pan y gwellhaodd, ac y daeth yn abl i fyned o amgylch, y peth cyntaf a wnaeth oedd gwneud ymgais i ddringo'r goeden drachefn, a'r tro hwn efe a lwyddodd. "Pam oedd mor ffol"? dywedwch. Am y rheswm nad oedd yn hoff o'r meddwl ei fod wedi cael ei orchfygu. Gobeithio na wna neb o'n darllenwyr ieuainc ddilyn ei esiampl trwy ddringo coed uchel, ond dilynwch ef, yn hytrach, yn ei benderfyniad i orchfygu anhawsderau.

IOLO MORGANWG.

Yn eich "Perlau Moliant," gwelwch yr enw uchod yn aml ar derfyn yr Emynau. Ond mae lle i ofni nad yw ddim ychwaneg nag enw i'r rhan fwyaf o honoch,—ie, dim ychwaneg nag enw i ran fawr o'n darllenwyr.

Trueni hyn. Yr oedd Iolo yn un o'r dynion ardderchog hyny sydd wedi codi ein gwlad i'r fan y mae ynddo heddyw ; a theilynga rywbeth gwell na'i ollwng i dir anghof.

Ganwyd ef yn agos i Dreffleming,

yn Mro Morganwg, yn 1747. Saer maen oedd ei dad wrth ei alwedigaeth ; a saer maen fu Iolo hefyd. Dywed ei fywgraffydd nad oedd dim yn hynod yn ei dad ; ond yr oedd ganddo fam ragorol, ac iddi hi yr oedd Iolo yn ddyledus am bob peth a feddai. Ni chafodd awr erioed o ysgol. Dysgodd y llythyrenau wrth sylwi ar ei dad yn naddu cerig beddau ; a dysgodd ddarllen gan ei fam. Llwyddodd ei fam hefyd i greu ynddo awydd am wybodaeth, ac er mai ychydig lyfrau oedd yn llyfrgell y teulu, trwy ei chynorthwy hi, gwnaeth eu cynwys yn fuan yn eiddo iddo ei hun.

Dechreuodd weithio wrth yr un alwedigaeth a'i dad pan yn naw oed. Ond yn ystod yr oriau hamddenol ddelent i'w ran, nid segura wnai ef, ond ymroddai i'w lyfrau ; ac ar ol gorphen ei waith am y dydd dychwelai at ei fam i gyd-siarad, neu gyd-ddarllen rhyw lyfr.

Dengys yr hanesyn canlynol mor llwyr yr ymroddai i'w lyfrau ar bob adeg gelai iddo ei hun. Yr oedd efe, a'i dad, ac eraill, unwaith yn adeiladu ty yn y gymydogaeth. Yn ystod yr awr giniaw elai ei dad a'r gweddill o'r cwmni i'r dafarn oedd gerllaw, ond arosai Iolo ar ol, a thra fyddent ffwrdd gwnai ef lawn ddefnydd o'r cyfleusdra i ddarllen. Un dydd, dywedodd ei dad wrtho, "gofala am y ty nes delom yn ol, cadw'r moch a'r ieir rhag myned i fewn." Addawodd Iolo wneyd hyn ; ond mor fuan ag y trodd ei dad ei gefn aeth at ei lyfr, fel arfer, ac yn fuan yr oedd y llyfr wedi enill ei feddwl mor llwyr fel yr anghofiodd am y moch a'r ieir ; a phan ddychwelodd ei dad, cafodd y ty yn llawn o honynt, ac Iolo yn eu canol wedi ymgolli yn llwyr yn ei lyfr.

Yr oedd wedi colli ei fam cyn i'r digwyddiad uchod gymeryd lle ; a phan y collodd hi, collodd y cwbl oedd yn ei glymu wrth Fro Morganwg. Ac mewn canlyniad i'r ffrwgwd gymerodd le rhyngddo a'i dad mewn cysylltiad a'r digwyddiad uchod, gadawodd ei Fro enedigol ac aeth i Lundain.

Ni ddychwelodd am chwe' blynedd Yn ystod yr amser hwn, yn ychwanegol at ddilyn ei alwedigaeth, ymroddodd o ddifrif i astudiaeth. Dywedir ei fod wedi meistroli y Lladin, y Groeg, a'r Hebraeg yn lled dda, ond ni chyfyngai ei hun i'r canghenau hyn o wybodaeth.

Ar ol bod yn Llundain ychydig flynyddau symudodd i swydd Caint. Adrodda ei fywgraffydd yr hanesyn hynod a ganlyn am dano tra fu yno. Dywedodd ei feistr wrtho, ei fod am iddo fesur dernyn o fur boreu tranoeth. Aeth Iolo i'w wely gan fwriadu gwneyd arch ei feistr. Ond pan yn drwm yn mreichiau cwsg, cododd o'i wely, gwisgodd ei ddillad ; aeth allan yn nghyfeiriad y mur, a mesurodd ef. Ar ol gorphen, dihunodd. Synodd ei fod allan yn yr awyr agored, ac nis gallai gyfrif beth oedd wedi digwydd. Arosodd yno hyd doriad y wawr. Synodd yn fwy byth pan y sylwodd fod mesuriadau y mur ar ei lyfr. Mesurodd y mur yr ail waith, a chafodd fod y ddau fesuriad yn hollol yr un peth. A ydyw'r hanesyn hwn yn wir ? Mae dynion yn gwneud pethau rhyfedd yn eu cwsg weithiau.

Yn mhen y chwe' blynedd dychwelodd i Gymru. Mae ei hanes ger fy mron, ac y mae ynddo lawer iawn o straeon difyrus ac addysgiadol.

Pan yn gadael Llundain yn 1777, canodd fel hyn :

No more of London's hateful noise !
Ye madden'd crowds, adieu ;
Detesting arts, ungenial joys,
I dwell no more with you :
Hail, dear Glamorgan, let me greet
Once more, the favour'd plain ;
I fly with gladden'd soul to meet
My native cot again.

Pwy a dry'r dernyn uchod i'r Gymraeg ?

Y Gofyniadau am Chwefror.—*Gwel y Rheolau yn Ngholofn mis Ionawr.*

(1) Beth oedd gwaith yr Ysgrifenyddion yn amser Iesu Grist?

(2) Hanes pa ddau o'r Apostolion geir fwyaf yn yr Actau?

(3) Y cyfeithad goreu o lythyr Mr. Bowie, yn YMOFYNYDD Ionawr.

Nodyn.—Pob gohebiaeth ar gyfer y golofn hon i'w hanfon i'r *Parch. D. Evans, Cribyn, Llanybyther.*

COFNODION Y MIS.

TRYSORFA GYCHWYN CYFRES YR UGEINFED GANRIF.

Cydnabyddwyd o'r blaen, £18 17s. Derbyniwyd yn ychwanegol y tanysgrifiadau canlynol: D. J. Jones, Broniestyn, Aberdâr, 10s. 6c.; Parch. R. J. Jones, eto, 2s. 6c.; E. J. Thomas, Abertawe, £1 1s.; J. Lewis, Dowlais, 10s. 6c.; Parch. G. Evans, Gorton, £1 1s.; Evan Jones, Aberdâr, 10s.; W. Thomas, eto, 10s. 6c.; J. James, eto, £1 1s.; Parch. T. Lloyd Jones, Liverpool, £1; Parch. J. Davies, Alltyplaca, 5s.; Parch. E. D. P. Evans, Kidderminster, 5s.; Mrs. Jenkins, Aeron Villa, Ystrad, 5s.; Jenkin Jones, Llandilo, 6s.9c.; Christmas Evans, Penheolgerig, £2 2s.; Parch. Tyssul Davies, Caerdydd, 5s.; Mrs. Jones, Gellifaharen, £1; Sergeant Thomas, Tonypandy, 5s.; Mrs. Evans, Park place, Caerdydd, 5s.; E. D. Howell, Aberdar, 10s. 6c.; D. Evans, Llysfaen house, Llanybyther, 7s. 6c.; E. Thomas, P.C., Talybont, 2s. 6c.; D. Evans, Lanlas, Cellan, 2s.; Miss Jones, Wern cottage, eto, 5s.; Mrs. Davies, eto, 5s.; Miss Davies, eto, 5s.; Miss Lewis, Maesgwilym, eto, 5s.; Mrs. Davies, Trebanne, eto, 5s.; Mrs. Jones, Ffynonddewi, eto, 2s.; Mr. J. Morgan, Cwmbach, 10s. 6c.; Mr. D. J. Davies, Blaencwrt, 10s. 6c.; Miss Davies, Llwynifan cottage, Cellan, 5s.; Parch. E. E. Jenkins, Rhydychen, 2s. 6c.; Mr. D. O. Evans, Merthyr, 5s.; Mrs. Evans, Llanon, 2s.; Capt. Jones, Llanon, 2s. 6c.; Mr. D. Thomas, P.C., Llanon, 4s.; Mr. Saunders-Davies, Felinfach, 5s.; Parch. J. E. Manning, Sheffield, 10s.; Mr. J. R. Thomas, Pontshan, 10s.; Mr. James Thomas, Court farm, Droitwich, 2s. 6c.; Mr J. Thomas, Vrondole, £2 2s.; J. Jones, Tonypandy, 5s. Y cwbl yn gwneud y cyfanswm hyd yma yn £38 18s. 9c. Diolch yn fawr i'n cyfeillion i gyd. Yr oeddem wedi gobeithio y buasai y swm yn cyrhaedd £40; buasai genym wed'yn ddigon i gyfarfod a'r holl dreuliau am chwe' mis. Apeliwn at ddarllenwyr YR YMOFYNYDD nad ydynt wedi cael cylchlythyr ond yn teimlo yn wresog dros yr achos, i wneyd y diffyg i fyny erbyn y rhifyn nesaf. £1 1s. 3c. sydd yn eisiau.—W. J.

CASGLIAD YR YSGOLION SUL.

Yr oedd y casgliad hwn, fel y penderfynwyd gan y pwyllgor, yn Dowlais, yn Medi diweddaf, i gael ei wneud yn ystod mis Rhagfyr, 1900, ac anfonwyd y cais i'r holl ysgolion. Os oes rhai o honynt heb ei wneud eto, ac yn golygu ei wneud, gobeithio y gwnant frys yn ystod y mis hwn i wneud y diffyg i fyny. Mae casgliadau yr Ysgolion Sul canlynol wedi eu derbyn — Hen-dy-cwrdd, Aberdar, 7s.3c.; Trebanos, 10s.; Dowlais, 6s.6c.; Llwynrhydowen, 9s.; Caeronen, 6s. 6c.; Cwmbach, 5s.; Alltyplaca, 7s.6c.; Llandyssul, 14s.7c.; Capel y Bryn, 10s.; Rhydygwin, 10s.;

Cribyn, 5s.; Capel Fadfa, 6s.4c.; Pentre, 3s.7c.; Sychbant, 5s; Pantydefaid, 17s. 2c. Cyfanswm, £6 3s. 5c.—W. J.

ARHOLIADAU YR YSGOLION SUL. Gobeithio fod yr holl ddosparthiadau yn llawn gwaith yn ystod y mis hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r Ysgolion wedi cael y llyfrau, ac yn ddiamheu wedi dechreu o ddifrif. Byddai gair o gefnogaeth a symbyliad, ac ambell awgrym er trefnu y gwahanol safonau oddiwrth y gweinidog yn gynorthwyol iawn. Gobeithio hefyd y gwêl ein gweinidogion y ffordd i helpu yn neillduol gyda'r safonau uwchaf. Undeb yr holl *forces* a wna y gwaith i fyn'd. Mae yn dda genyf glywed fod rhai o'n gweinidogion yn Ngheredigion yn gystal a Morganwg yn cyfarfod a'u dosparthiadau yn ystod yr wythnos, ac yn casglu nifer luosog o fobl ieuainc at eu gilydd ydynt yn dwyn mawr sêl dros y gwaith. Mawr lwyddiant ddilyno eu hymdrechion.

ALLTYPLACA.—Dydd Nadolig cynhaliodd Ysgolion Sul Alltyplaca a Chapel-y-groes eu cyfarfod blynyddol yn y lle uchod, pryd yr aethant drwy eu gwaith yn ganmoladwy. Teimlem nad oedd y cyfarfod mor boblogaidd ag yn y blynyddoedd a fu.

BRADFORD.—Y mae yn llawenydd genym i gyd weled y llwyddiant sydd yn canlyn y Cymry, ydynt yn ein pwlpudau yn Lloegr. Yn y *Bradford Weekly Telegraph* ymddengys erthygl ddyddorol iawn ar y "Capel Anghydffurfiol cyntaf yn Bradford," ynghyd a darlun o'r capel hardd presenol, a'r gweinidog,—y Parch. E. Ceredig Jones, M.A. Rhifa yr Ysgol Sul 300. Agorwyd yno Ysgoldy newydd yn ddiweddar, gwerth £2000, a gelwir ef yn Channing Hall, ar ol y duwinydd, y dyngarwr, a'r Undodwr—William Ellery Channing.

CAPEL Y FADFA.—Prydnawn y dydd olaf o'r flwyddyn 1900, cafodd Ysgol Sul y lle hwn wledd o dê a bara brith. Yr oedd yno fyrddau gorlawn a destlus wedi eu darparu, a mwynhawyd y wledd yn fawr. Cafwyd Cyngherdd mawreddog yn yr hwyr yn Ysgoldy y Bwrdd, Talgarreg.

CAPEL Y BRYN.—Cynhaliodd Ysgolion Sul Capel y Bryn a Sychbant eu Cyfarfod Blynyddol yn y lle uchod, prydnawn Nadolig. Arholwyd hwy gan y gweinidog. Nid oes dim ond yr hyn sydd dda i'w ddyweyd am eu gwaith, ond trueni na fuasai rhagor yn teimlo dyddordeb ynddo.

Bu plant ardal Cwrtnewydd yn ffodus iawn yn ystod y gwyliau, cawsant ddwy Wyl Dê,—un mewn cysylltiad ag Ysgol y Bwrdd, gan yr athraw poblogaidd, a'r llall yn Capel y Bryn, gan y gweinidog parchus. Bu cyfarfodydd llwyddianus yn dilyn y ddwy yn yr hwyr.

GELLIONEN.—Cyflwynwyd yn agos i 50 o dystysgrifau i'r aelodau llwyddianus yn arholiad 1900. Hyderwn y gwna nifer fwy ymgeisio y flwyddyn hon.

Dydd Nadolig anrhegwyd aelodau yr Ysgol Sul a gwobrwyon am eu ffyddlondeb yn ystod y flwyddyn ddiweddaf. Cafwyd Cyfarfod Adloniadol yn yr hwyr. Pasiodd y cyfan yn gampus, pawb yn ymadael gyda dymuniad am gyffelyb un yn fuan.

Y mae yn llawenydd genym ein bod wedi clirio £100 o'r ddyled erys ar ein capel. Gobeithio y cawn weled y cyfan wedi ei dalu cyn bo hir.

Mae aelodau Seindorf Arian Trebanos wedi gorphen talu am eu hoffernau, a rhoddasant wledd o dê a bara brith, a chyngherdd i'w cyfeillion a'u cymwynaswyr er dathlu yr amgylchiad hyfryd.

GRAIG, LLANDYSSUL.—Tua diwedd y flwyddyn estynwyd deheulaw cymdeithas i 29 o aelodau newyddion yn yr eglwys hon, gan y gweinidog. Ein dymuniad yw ar i eraill ddilyn eu hesiampl dda, yma, ac mewn manau eraill.

Dydd Nadolig anrhegwyd deiliaid yr Ysgol Sul a'u cyfeillion, a gwledd o dê a bara brith, gan Mr. a Mrs. James, Brynhyvryd. Yn yr hwyr, trwy garedigrwydd y Parch. T. Thomas, Green Park, cafwyd *Lantern Entertainment.* Pwnc y ddarlith oedd, "Ymweliad a phrif-ddinasoedd

y byd." Cadeiriwyd gan Mr. Evan Evans, y Siop.

PANTYDEFAID.—Noson cyn Nadolig traddodwyd yr un ddarlith yn Neuadd yr Undodiad, pryd y cadeiriwyd gan y cynweinidog.

Sul yr 20fed, derbyniwyd saith o aelodau newyddion yn Pantydefaid.

LLWYNRHYDOWEN. — Prydnawn dydd Nadolig cyfarfu Ysgolion Sul y Bwlch a'r Llwyn yn y Capel Newydd, pryd yr arholwyd hwynt gan Mr. E. O. Jenkins. Aethpwyd drwy y gwaith yn llwyddianus a hwylus. Ar ol gorphen y gwasanaeth eisteddwyd with y byrddau i fwynhau y tê a'r deisen fraith. Yn yr hwyr cynhaliwyd y Cyngherdd Blynyddol yn yr Hen Gapel. Yr oedd yr oll o'r cyfarfod yn llwyddiant o'r fath oreu.

PONTYPRIDD.—Ar ol wyth mlynedd o wasanaeth yn yr eglwys hon, y mae y gweinidog, Dr. Griffiths, wedi ymddiswyddo. Mewn cyfarfod ymadawol gynhaliwyd yn ddiweddar yno, pryd yr oedd holl weinidogion y cylch, a chyfeillion eraill yn bresenol, anrhegwyd y Dr. a Mrs. Griffiths ag Oriawr Aur a *Silver Fruit Basket*, fel arwydd o'r teimlad da a ffynai rhwng y gweinidog a'i bobl.

Ysgrifena W. E. D. i ddymuno llwyddiant YR YMOFYNYDD eto yn y dyfodol, a gofyna a wna rhywun o'n gohebwyr ysgrifenu adolygiad o lyfr Marie Corelli, "*The Master Christian.*" Bydd croesaw calon iddynt wneud hyny.

"YR YMOFYNYDD."—Da genym glywed o lawer cyfeiriad fod rhifyn Ionawr wedi cael derbyniad mor gynhes. Mae'r Wasg yn ei gymeradwyo, ac yr ydym wedi derbyn geiriau o gefnogaeth wresog oddiwrth lawer o'n cyfeillion. Argraffwyd mil o gopiau, ac nid oes un yn aros. Mae y cylchrediad wedi myned i fyny ar unwaith i 950, ac yr ydym yn hyderus y bydd yn fil yn fuan. Mae ein diolchgarwch gwresocaf yn dyledus i'r Golygwyr am eu hymdrechion yn eu cylch priodol eu hunain, ac yn neillduol am eu ffyddlondeb yn casglu yr hyspysiadau ydynt yn ychwanegiad mor sylweddol i'r drysorfa. Credwn y gwna y Golygwyr eu goreu o fis i fis, ac fe allwch chwi, y darllenwyr, hefyd wneud gwasanaeth mawr fel hyn: Os ydych chwi yn credu fod gan YR YMOFYNYDD genadwri, os ydych yn cael eich boddloni ynddo ac yn credu ei fod yn werth i'w ddarllen, rhoddwch gefnogaeth i eraill i'w dderbyn ac i'w ddarllen. Gyda chydweithrediad o'r fath yna ni fydd eisiau pryderu gyda golwg ar ei ddyfodol.—W.J.

MARWGOFION.

TACHWEDD 17eg, ar ol yn agos i ddwy flynedd o gystudd, a oddefwyd yn amyneddgar, yn 91 mlwydd oed, Owen Jones, Nantygelli villa, gynt Abernantllan, Llanwenog. Cafodd yr ymadawedig fyw'n hir yn y byd, a iechyd da, agos hyd derfyn y daith. Buasai yn aelod ffyddlon o'r eglwys Gristionogol yn Nghapel-y-groes, a dygai fawr sel dros yr achos Undodaidd. Gadawodd dri o blant, a llawer o wyrion, i alaru'n ddwys ar ei ol, i'r rhai y dymunwn nerth i alaru'n gymedrol. Claddwyd yn mynwent Llanwenog, lle'r oedd ei anwyl briod yn gorphwys o'i flaen; a chyflawnwyd y gwasanaeth yn y ty gan y Parch. J. Davies, ac yn yr eglwys, gan yr offeiriad.

TACHWEDD 21ain, ar ol cystudd maith a chaled, Jane Davies, Pantolwenfach, Llandyssul, yn 29 oed. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch ieuanc ddarbodus a thyner, ac iddi air da gan bawb a'i hadwaenai. Yr oedd yn aelod ffyddlawn yn Pantydefaid a'r Graig. Y dydd Sadwrn canlynol cludwyd ei gweddillion

marwol i Pantydefaid, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. T. P. Phillips (A.) Nodded y nef fyddo dros ei rhieni, y ddwy chwaer, a'r brawd sydd mewn galar ar ei hol.

TACHWEDD 22ain, yn 85 oed, Dinah Jones, Cwmgeist, ger Llandyssul. Y dydd Llun canlynol claddwyd ei gweddillion marwol yn Pantydefaid, y gweinidog yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Rees, Rhondda.

TACHWEDD 25ain, Daniel Jones, Glan Vallen, Cribyn, yn 31 oed. Yn ystod y naw mlynedd diweddaf bu ein cyfaill yn gwasanaethu fel athraw dan Fwrdd y West Ham, Llundain; ac yno y bu farw. Dygwyd ei gorff adref i Cribyn, lle y daearwyd y rhan oedd farwol o hono ar y 29ain, yn mhresenoldeb torf luosog, y rhai a ddangosent arwyddion amlwg o alar dwys ar ei ol. Gweinyddwyd gan y gweinidog, a chan y Parch. J. Davies ar lan y bedd; a thraddodwyd y bregeth angladdol y Sul canlynol i glywedigaeth cynulleidfa luosog. Nerth a gaffo'r fam oedranus a'r brodyr i ddal fyny dan y brofedigaeth chwerw.

TACHWEDD 26, Margaret Howells, merch John a Rachel Howells, Maesgwyn, ger Cribyn, yn 6 oed. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Cribyn dydd Gwener canlynol, y gweinidog yn gwasanaethu. Na wylwch ar ol yr un fechan fel rhai heb obaith.

TACHWEDD 27ain, Mr. Richard Llewelyn, Mill-street, Aberdar, ychydig yn fyr o'i 76 oed. Perthynai i hen deulu ffyddlon a selog, a rhai yn golofnau cedyrn yr achos yn yr Hen Dy Cwrdd, tra yr oedd ei gysylltiad ef ei hunan wedi dechreu er cyn cof y rhan amlaf o'r gynulleidfa. Bellach bydd ei le yn wag, a'i wyneb serchog a charuaidd, un o'r "*old familiar faces*," nis gwelir yma mwy. Ffarwel, gyfaill anwyl, dros enyd fach. Cysgoded yr Hollalluog y weddw oedranus a rhodded iddi ymollyngiad esmwyth weddill y daith oriwaered. Caffed hi a'i phlant a'r galarwyr oll deimlo gwerth y tangnefedd sydd oddi wrth Dduw. Cafodd gynhebrwng lluosog, y rhan amlaf o weinidogion yr ardal o bob enwad yn bresenol, yn nghyd a chynrychiolwyr y prif deuluoedd. Gwasanaethwyd gan R.J.J., yn y tŷ ac yn y gladdfa gyhoeddus.

TACHWEDD 27ain, ar ol cystudd byr ac ysgafn, bu farw un o drigolion henaf plwyf Llandyssul, sef David Jones, Frondes, rhan o fferm Gwardafolog. Yr oedd yr hen gyfaill a'r hen dad ymadawedig yn un o naw o blant—chwech o frodyr a thair o chwiorydd, y rhai a fuont byw i gyrhaedd yr oedran canlynol: Mary 87 o flynyddau, Evan 80, Joseph 79, Sarah 78, Thomas 77, John 68, William 65, Elizabeth 52, a David yr hwn oedd yn 95 pan aeth "drwy y geledig gul adwy." Anaml yn y wlad y ceir teuluoedd mor lluosog a hirhoedlog hefyd gyda'u gilydd a'r teulu hwn. Pan yn ieuainc adnabyddid hwynt oll fel plant Gilfachddafydd, fferm yn nyffryn Cerdin yn y plwyf rhagddywededig. Enw'r tad oedd John a bu farw yn 90 mlwydd oed, ac enw'r fam oedd Hannah yr hon a fu farw yn 76 mlwydd oed. Teulu cyfan o Undodiaid oeddent, yn rhieni a phlant. Pantdefaid oedd eu Jerusalem, ac er wedi myned ar wasgar yma a thraw cyrchent yma yn achlysurol i'r addoliad, ac yma yn yr hen fangre gysegredig y claddwyd hwynt oll, yn nghyd a'u gwyr a'u gwragedd, oddieithr David, yr hwn, wedi iddo briodi, a aeth i fyw at ei wraig yn Felin Castell Hywel, ac wedi hyny, ar ol marwolaeth ewythr ei wraig, sef David Evans, Gwardafolog, yn nghymydogaeth Bwlchyfadfa, aethant i fyw i'r fferm hon, ac yn y fynwent dlos hon y cafodd David Jones ei gladdu y dydd Gwener canlynol i'w farwolaeth. Teimlai hen gyn-weinidog Pantydefaid na allai wasanaethu fel y dymunai ar yr achlysur, a chymerwyd ei le gan y Parch. John Davies, yr hwn a bregethodd yn dra rhagorol oddiwrth 2 Cor. v, 10. Saer coed oedd David

Jones wrth ei alwedigaeth, a phen saer ydoedd, ac er wedi troi yn ffermwr yr oedd yn ymbleseru wrthi hyd y diwedd, pan y cai ychydig seibiant. Gadawodd briod serchog ac anwyl, yn nghyd a thair merch mewn hiraeth dwys ar ei ol. Gobeithio y bydd i'r plant a'r ŵyrion fyw yn deilwng o'i goffadwriaeth, a bod yn aelodau defnyddiol mewn cymdeithas, fel eu tad a'u teidiau.

RHAGFYR 2il, Mr. David Rees, Wattstown, yn 50 oed, orwyr i'r diweddar Barch. Thomas Evans (1766—1833) Aberdar, a'r diweddaf o'r hiliogaeth yn proffesu Undodiaeth. Yr oedd sel Mr. Rees hwnt i fesur. Elai i'r Hen Dy Cwrdd, Aberdar, gyda'i dad a'i fam pan yn blentyn a daliodd yn ffyddlon at ei broffes drwy ei oes. Treiglodd lawer o le i le, ond yn mhob man cadwai i fyny ei gysylltiad a'r achos Undodaidd yn rhywle. Er yn byw yn mhell, cyrchodd yn hir i *Highland Place* ryw unwaith y mis, ac wedi hyny i Bontypridd ; ac er ei fod wedi ei analluogi gan afiechyd i bresenoli ei hunan yn y lle olaf er ys tipyn bellach, eto tanysgrifiai hyd y diwedd. Cyhyd ag y gallodd fyned allan o'r tŷ, rhoddodd ei help a'i bresenoldeb i'r achos newydd yn Tylorstown. Pan elai o dref, ei ymholiad cyntaf oedd am Dy Cwrdd yr Undodiaid. Gan ei fod yn Undodwr o galon yr oedd yr un gartref *ac oddicartref.* Derbyniai a a darllenai yn fanwl yr *Ymofynydd* a rhyw dri neu bedwar o'r cyhoeddiadau Seisnig, yr *Inquirer*, y *Christian Life*, y *Chritian Freeman*, &c. Gwasanaethwyd ddydd yr angladd gan Thomas Edwards, David Rees, J. J. George, ac R. J. J. Claddwyd yn *Cemetery* Aberdar, dydd Iau. Y mae wedi gadael gweddw mewn galar dwys ar ei ol.

RHAGFYR 3, Mr. John Lewis. Llewelyn St., Aberdare, yn 48 oed, Aeth at ei orchwyl nos Sul, i bob ymddangosiad, yn ei iechyd arferol. Cymerwyd ef yn glaf iawn tuag unar-ddeg o'r gloch, ac ni chafwyd gair ganddo byth mwy. Bu farw nos Lun, tua 6.30. Y mae'r amgylchiad sydyn a phrudd yn naturiol wedi gadael teimladau rhwygedig iawn yn y teulu, ac argraff ddwys ar y gymydogaeth, gan fod yr ymadawedig yn un a hoffid gan bawb ar gyfrif ei luaws rinweddau. Rhyfedd yn fynych yw ffyrdd Rhagluniaeth yn rhedeg i'r môr, a'i lwybrau i'r dyfroedd dyfnion. Ymwrolwch alarwyr anwyl, ymwrolwch eto, y naill er mwyn y llall. Gwasanaethwyd gan R. J. J.

RHAGFYR 6ed, yn 7 mis oed, Jenkin, baban bychan Mr. a Mrs. Jones, Drenewydd, Llandyssul. Claddwyd ef yn Pantydefaid, y gweinidog yn gwasanaethu. Cofied y rhieni eiriau'r Iesu, "Gadewch i blant bychain ddyfod attaf fi."

RHAGFYR 15fed, yn dra anisgwyliadwy, yn 67 oed, Rachel Phillips, gwraig y diweddar David Phillips, Mermaid, St. Clears. Goroesodd Mrs. Phillips ei phriod ond yn unig am ychydig wythnosau. Profodd yr ymadawedig ei hun yn wraig ffyddlon a darbodus, ac yn fam dyner a gofalus. Caffed y plant a'r perthynasau oll nerth i beidio galaru fel rhai heb obaith, er colli cymdeithas a gofal anwyliaid mewn amser mor fyr. Er nas gellir esbonio y treialon a'n cyfarfyddant yn y byd hwn, eto, gweddus i ni, bawb, i ymddiried yn nghariad anghyfnewidiol y Tad Anfeidrol. Duw a fendithio y plant a'r galarwyr oll yn eu gofid dwys, a bydded iddynt gofio mae'r gofgolofn oreu fedrant godi mewn coffadwriaeth i'r rhai sydd wedi eu gadael yw, bywydau rhinweddol a phur. Claddwyd ei gweddillion marwol y Mercher canlynol, yn mynwent Eglwys y Plwyf. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. Cadfwlch Davies (A.), St. Clears, a T. J. Jenkins, Gellionen, ac yn yr Eglwys a glan y bedd gan y Ficer. Daeth torf luosog yn nghyd i ddangos eu cydymdeimlad a'r galarwyr a'u parch tuag at yr ymadawedig. Nodded y nef aroso ar yr oll.

[Gadawyd rhai marwgofion allan o ddiffyg gofod. Cânt ymddangos yn ein nesaf.—GOL.]

COLOFN Y GOLYGWYR.

C. F.—Yr ydych yn ymyrù a mater na pherthyn i chwi. Y person ei hun yw'r beirniad goreu gyda golwg ar foesoldeb neu anfoesoldeb ei waith yn derbyn llog am fenthyg arian yn y ddau achos a nodwch. Yr unig gyfrifoldeb a berthyn i ni fel enwad yw gwneud rhywbeth tuag at ddilëu y ddyled.

Carem i'n gohebwyr fod yn fyr a chryno yn eu hadroddiadau. Gorfuwyd arnom dalfyru pob gohebiaeth ddaeth i law erbyn y mis hwn. Nid oes gofod yn YR YMOFYNYDD i lawer o sebon. Byr a phwrpasol, gyfeillion.

Nid ydym yn addaw y gwna un ohebiaeth ymddangos, os na ddaw i law erbyn y 15fed o bob mis. Cyntaf i'r felin ga falu.

RHIFYN MAWRTH.—Ymddengys ynddo erthyglau dyddorol fel y canlyn—"Un o arwyr y ganrif ddiweddaf"; "Ar y trothwy," gan R. J. J.; "Enillion y ganrif," gan E. D. P. Evans; "Francis—y Sant o Assisi, gan E. G. Evans; "Yn eisiau—Diwygiad newydd," gan W. T. Jones; "Carmarthen College," gan y Prifathraw Evans; "Nyth y Fran"; "Colofn y Plant," &c., &c.

Os gŵyr neb o'n darllenwyr caredig am rywun fyddai yn debyg o ddod yn dderbyniwr o'r YMOFYNYDD, anfoner ei gyfeiriad i'r Golygwyr, neu'r Cyhoeddwr.

HYSPYSIADAU ADRAN YR YSGOL SUL.

Arholiadau 1901.

Safon 3 a 4. GWERSI AR EFENGYL LUC (Pen. I—VIII), Rhan I. Yn rhydd trwy'r *Post*, 8c.

Safon 2. HOLWYDDOREG AR HANES IESU GRIST, gan y Parch. D. Evans. Pris, 1c.

Safon 1. GOFYNIADAU AR LUC, 1—8. Yn rhydd trwy'r *Post*, 6c. y ddwsin.

GWERSI AR EFENGYL MARC. Y tair rhan wedi eu rhwymo gyda'u gilydd. Ychydig gopiau ar law. Pris, 2/6 yr un, trwy y *Post*, 2/9.

GWERSI AR EFENGYL MARC, Rhan II a III. Yn rhydd trwy'r *Post*, 6c. yr un.

Anfoner at W. James, Brynhyvryd, Llandyssul.

TRAETHODYNAU CYMRAEG CYMDEITHAS UNDODAIDD LLUNDAIN.—1. Lle Ddoe, Heddyw, ac Yfory mewn crefydd, gan y Parch. W. Tudor Jones, F.R.G.S., Abertawe. 2. Y ddwy olwg ar yr Hen Destament, gan y Parch. Dr. Griffiths, Pontypridd. 3. Iesu ein harweinydd, gan y Parch. D. J. Williams. 4. Crefydd a Duwinyddiaeth, gan y Parch. J. Ewart Jenkins, Dowlais.

Anfonir Copiau o'r Traethodynau yn rhad gan Mrs. Lewis, Tophill, Pontypridd.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gomerian Press, Llandyssul.